# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4**

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Hydref 2022

Amser: 09.30 - 12.31

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/12990) yn:

http://senedd.tv/cy/12990

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau o'r Senedd: | Delyth Jewell AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Alun Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Tom Giffard AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Justin Lewis, Prifysgol Caerdydd<br>Tom Ware, Prifysgol De Cymru<br>Dafydd Rhys, Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Gillian Mitchell, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru<br>Clara Cullen, Music Venues Trust |
| Staff y Pwyllgor: | Lleu Williams (Clerc)<br>Andrea Storer (Ysgrifenyddiaeth)<br>Sara Moran (Ymchwilydd)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon - y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

## 2 Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol: Sesiwn dystiolaeth gydag academyddion

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Yr Athro Justin Lewis, Athro mewn Cyfathrebu a Diwydiannau Creadigol, Prifysgol Caerydd
- Tom Ware, Deon Cyswllt, Trawsnewid Cyfryngau a Phartneriaethau, Cyfadran Busnes a Diwydiannau Creadigol, Prifysgol De Cymru

## 3 Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol: Sesiwn dystiolaeth gyda sefydliadau celfyddydau a diwylliant

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Dafydd Rhys, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru
- Gillian Mitchell, Prif Weithredwr Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
- Clara Cullen, Rheolwr Cefnogi Lleoliad, Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth

3.2 – (Hefin) Cytunodd Dafydd Rhys i rannu enghreifftiau o astudiaethau achos o brosiectau sy'n gweithio gyda phobl awtistig

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, ynghylch briffio Cymru Greadigol

4.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr at Ddrprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, ynghylch briffio Cymru Greadigol.

### 4.2 Llythyr at y Pwyllgor Busnes ynghylch yr amserlen ar gyfer Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Protocol Gogledd Iwerddon

4.2a Nododd y Pwyllgor y llythyr at y Pwyllgor Busnes ynghylch yr amserlen ar gyfer Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Protocol Gogledd Iwerddon.

### 4.3 Llythyr gan y Gynghrair Cefn Gwlad ynghylch ymchwiliad brys i werthu a phrynu tir amaethyddol - a werthir yng Nghymru ar gyfer plannu coed - i gwmnïau.

4.3a Yn dilyn trafodaeth ar y llythyr gan y Gynghrair Cefn Gwlad, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn nodi'r llythyr ac yn ymchwilio i ba gamau y mae Pwyllgorau eraill yn eu cymryd.

### 4.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu

4.4a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Ôl-drafodaeth breifat

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod eitemau 2 a 3.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon: trafod yr adroddiad drafft

## 8 Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi: trafod yr ymateb drafft

## 9 Adroddiad ar gostau cynyddol: trafod yr adroddiad drafft

9.1 Oherwydd diffyg amser, cytunwyd y dylid gohirio’r drafodaeth ar yr adroddiad, a threfnu cyfarfod ychwanegol (preifat/rhithwir) yr wythnos gyntaf ar ôl y toriad er mwyn i’r pwyllgor gael y drafodaeth hon.

## 10 Trafod yr ohebiaeth ddrafft

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth drafft.

## 11 Adroddiad Monitro Materion Rhyngwladol: i'w nodi

Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Monitro Materion Rhyngwladol